**Rhif: WG38092**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Y GRONFA ARIANNOL WRTH GEFN: ADOLYGU'R FETHODOLEG DDYRANNU

Gorffennaf 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol

# Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn: adolygu’r fethodoleg ddyrannu

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau Addysg Bellach, y Brifysgol Agored a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector hwn. |
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r fethodoleg ddyrannu ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Gwybodaeth Bellach** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br><br>Yr Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: HEDConsultationsMailbox@gov.wales |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir cael gafael ar y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn: adolygu’r fethodoleg ddyrannu:<br>https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-01/dogfennau-ymghynghori-y-gronfa-ariannol-wrth-gefn.pdf |

## Cynnwys


Cyflwyniad 4

Crynodeb 4

Ymatebion 4

Cwestiynau a themâu 5

Ymateb Llywodraeth Cymru 13

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr 14

## Cyflwyniad

1. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar fformiwla newydd ar gyfer dyrannu cyllideb flynyddol y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (y Gronfa) i Sefydliadau Addysg Bellach (SAB). Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb

2. Roedd Gweinidogion Cymru yn ceisio barn ar y cynnig i ddiwygio'r fethodoleg ariannu ar gyfer cyllideb y Gronfa i Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.

3. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 21 Ionawr 2019 a 18 Mawrth 2019 a derbyniwyd 13 ymateb. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a roddodd o'u hamser i gyflwyno'u sylwadau. Derbyniwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r dyraniad fel y'u disgrifiwyd.

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwyso a mesur yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi penderfynu cyflwyno'r fethodoleg ddyrannu ddiwygiedig fel y cynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori.

## Ymatebion

5. Daeth 13 ymateb i law, gyda deuddeg ohonynt yn ymateb i bob cwestiwn unigol ac un yn rhoi sylwadau cyffredinol. Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) gyflwynodd y nifer fwyaf o ymatebion. Cafwyd ymateb hefyd gan Undeb ac Elusen o fewn y sector yng Nghymru. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

## Cwestiynau a themâu

1. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i ganfod barn ar y newid arfaethedig i'r fethodoleg ariannu ar gyfer dyrannu cyllideb y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) yng Nghymru.

Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno y dylai'r fethodoleg ar gyfer dyrannu cyllideb y Gronfa Ariannol Wrth Gefn fod yn agored a thryloyw?

2. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r fethodoleg ar gyfer dyrannu cyllideb y Gronfa fod yn agored a thryloyw.

3. Er eu bod yn cytuno â'r pwynt hwn, dywedodd NEU Cymru nad oedd yr ymgynghoriad yn nodi'r dyraniadau arfaethedig ochr yn ochr â'r dyraniadau presennol.

4. Gofynnodd Coleg Caerdydd a'r Fro data pa flwyddyn academaidd fyddai'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r dyfarniad grant.

Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r dyraniadau fod yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr a mesur o anfantais economaidd?

5. Roedd deuddeg o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r dyraniadau fod yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr a mesur o anfantais economaidd.

6. Roedd Coleg Pen-y-bont o'r farn nad oedd nifer y myfyrwyr oedd yn cael mynediad at LCA/Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn fesur digon cywir i fod yn sail i'r fethodoleg gyllido. Mae'r Coleg yn nodi bbod rhai myfyrwyr cymwys yn dewis peidio â gwneud cais am LCA/Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, tra bo eraill wedi cael problemau o ran dangos tystiolaeth eu bod yn gymwys.

7. Awgrymodd Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, er bod nifer myfyrwyr ac anfantais economaidd yn darparu sail gref ar gyfer cyfrifo dyraniadau, mai ffactorau fel effaith amddifadedd lluosog a gwledigrwydd fyddai'r ffordd orau o nodi amgylchiadau Dysgwyr.

8. Nododd Coleg Caerdydd a'r Fro ganran cymharol uchel o bobl o leiafrifoedd ethnig ym mhoblogaethau Caerdydd a Chasnewydd. Adroddwyd ganddynt fod trosolwg o amddifadedd yng Nghaerdydd wedi amlygu bod lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn fwy agored i ddiweithdra hirdymor.

Cwestiwn 3. Sut dylai anfantais economaidd gael ei fesur?

9. Cytunodd deg ymatebydd y dylid mesur anfantais economaidd yn ôl y data cyfredol ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a dyfarniadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG), er mwyn adlewyrchu nodweddion dysgwyr unigol mewn sefydliadau. Roedd un ymatebydd yn anghytuno.

10. Mae Coleg Pen-y-bont o'r farn y byddai mesur anfantais economaidd drwy god post, yn seiliedig ar ddemograffeg y boblogaeth o fyfyrwyr sy'n gofrestredig yn y sefydliad, yn sicrhau bod sefydliadau'n derbyn dyraniad tecach. Ma'r Coleg yn pwysleisio bod rhai colegau mewn ardaloedd lle mae'r awdurdod lleol wedi lleihau cymorthdaliadau trafnidiaeth ôl-16. Gallai hyn, ynghyd â lleihau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, olygu na ellir darparu trafnidiaeth i fyfyrwyr cymwys, a allai effeithio'n andwyol ar nifer y ceisiadau/cofrestriadau ac, yn ei dro o dan y cynigion hyn, leihau cyllid ar gyfer llefydd tymor go iawn a chyllid y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

    Mae Coleg Pen-y-bont hefyd yn nodi bod gan rai ardaloedd economaidd gyfraddau uwch o feichiogrwydd ymhlith pobl yn eu harddegau, a allai achosi iddynt golli addysg a bod yn agored i lefelau uchel o risg o ran NEET, amddifadedd ariannol a diffyg mynediad i gyfleoedd addysg.

11. Roedd Addysg Oedolion Cymru yn anghytuno ac yn cynnig bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc), sy'n seiliedig ar ardaloedd, yn fesur mwy priodol o amddifadedd economaidd. Oherwydd na fydd myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i gael LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar y cyfan, maent yn awgrymu na all hyn roi darlun cywir a chynhwysol o nifer y myfyrwyr incwm isel mewn sefydliad.

12. Er bod Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot yn cytuno mai'r LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru fyddai'n adlewyrchu nodweddion dysgwyr unigol mewn sefydliad orau, roeddent o'r farn na fyddai'r rhain yn ystyried penderfynyddion ehangach amddifadedd a'u heffeithiau. Maent yn awgrymu y gellid defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) hefyd.

13. Roedd Coleg Caerdydd a'r Fro yn cytuno â'r mesurau arfaethedig, ond yn awgrymu y dylid ystyried ffactorau fel poblogaeth, diweithdra, cymunedau difreintiedig, prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cyflawni eu potensial hefyd.

Cwestiwn 4. Ydych chi'n fodlon â'r pwysoliad sydd mewn golwg ar gyfer pob ffactor?

14. Cytunodd naw o'r deuddeg a ymatebodd eu bod yn fodlon â'r pwysoliad arfaethedig ar gyfer pob ffactor.

15. Nid oedd Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot yn fodlon â'r fformiwla na'r pwysoliad mewn golwg ac maent o'r farn y dylid cynnwys amddifadedd lluosog a gwledigrwydd.

16. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru y byddai dyrannu 95% o'r cyllid yn seiliedig ar ddysgwyr amser llawn yn cael effaith niweidiol ar eu dysgwyr. Maent yn dadlau nad yw ffynonellau incwm eraill ar gael bob amser, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.

17. Awgrymodd Coleg Pen-y-bont y byddai'r fethodoleg arfaethedig yn ffafrio sefydliadau mwy o faint; gan fod ganddynt gyfran fwy, ar y cyfan, o fyfyrwyr o fyfyrwyr sy'n cael mynediad at LCA/Grant Dysgu Llywodraeth Cymru - a hynny mewn niferoedd uchel iawn o bosib.

Cwestiwn 5. Oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried? Rhowch gyfiawnhad dros unrhyw ffactor(au) ychwanegol.

18. Ni awgrymodd pum ymatebydd unrhyw ffactorau eraill.

19. Codwyd y mater o wledigrwydd a chostau'n ymwneud â chludiant gan bump ymatebydd (Coleg Sir Benfro, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, Colegau Cymru, Coleg Pen-y-bont a NEU Cymru). Tynnodd yr ymatebwyr hyn sylw at heriau pellteroedd teithio a seilwaith trafnidiaeth i sefydliadau, a fydd yn effeithio'n bennaf ar ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a thenau eu poblogaeth, ond weithiau ar rai mewn ardaloedd trefol.

20. Awgrymodd Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot y dylid defnyddio dull amgen o fesur amddifadedd hefyd.

21. Tynnodd Coleg Caerdydd a'r Fro sylw at drothwyon twf, symudedd ac incwm fel ffactorau. Credant fod y trothwyon incwm presennol ar gyfer dyfarnu LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn ddibwys i gydnabod tlodi.

22. Mae Coleg Pen-y-bont yn awgrymu y gallai myfyrwyr sy'n dewis cyrsiau penodol wynebu costau uwch o ran deunydd cyrsiau a theithio na myfyrwyr sy'n dewis cwrs sy'n cael ei ddarparu'n ehangach.

23. Cynigiodd Addysg Oedolion Cymru y dylid ystyried cyfanswm nifer yr oriau astudio a wneir gan fyfyrwyr rhan-amser.

Cwestiwn 6. Sut byddech chi'n diffinio'r ffactor(au) ychwanegol?

24. Mae Coleg Sir Benfro yn diffinio'r Mesur Gwledigrwydd (Teneurwydd Poblogaeth) fel pwysau sy'n wynebu dysgwyr sy'n dioddef anfantais anochel

o ran costau oherwydd lle maent yn byw, mewn perthynas â'r darparwr ôl-16 amgen agosaf.

25. Mae Colegau Cymru, Coleg y Cymoedd a Choleg Sir Benfro i gyd yn awgrymu y dylid darparu dyraniad ychwanegol i ddysgwyr o ardaloedd gwledig, sy'n wynebu anfanteision cost na ellir eu hosgoi oherwydd lle maent yn byw mewn perthynas â'u SAB agosaf, neu sy'n wynebu costau cludiant ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleoliadau profiad gwaith. Nododd NEU Cymru fod gwledigrwydd yn cael ei ddefnyddio yn fformiwlâu eraill Llywodraeth Cymru. Mae Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot yn awgrymu bod Adran 3 "Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Canllaw i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig", yn cynnwys diffiniad a gallai hynny fod yn fan cychwyn.

26. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn diffinio'r ffactorau canlynol:

a) Twf – Yn seiliedig ar y twf sy'n digwydd yn Ninas Caerdydd ar hyn o bryd;
b) Symudedd – Sicrhau symudedd dysgwyr o bob rhanbarth, sy'n cael eu denu at ehangder ac ansawdd y cwricwlwm;
c) Trothwy – Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio "trothwy" i'w ddefnyddio'n genedlaethol. Mae'r Gronfa "ddewisol" yn caniatáu unigoliaeth ym mhob SAB a allai beri anfantais i ddysgwyr o bosibl, yn enwedig yn y siroedd mwy cefnog.

27. Mae Addysg Oedolion Cymru yn awgrymu cyfanswm nifer yr oriau astudio a wneir gan ddysgwr rhan-amser mewn SAB yn ystod y flwyddyn academaidd.

| Cwestiwn 7. Sut byddech chi'n mesur y ffactor(au) ychwanegol? |
|---|

28. Mae Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot a Choleg Sir Benfro yn awgrymu y gellid mesur Gwledigrwydd (Teneurwydd Poblogaeth) ar sail yr Adolygiad diweddaraf o Fethodoleg Cyllid AB Llywodraeth Cymru. Nododd Sir Benfro fod pump SAB yng Nghymru yn perthyn i'r categori hwn ar hyn o bryd.

29. Cynigiodd Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot y gellid mesur Amddifadedd Lluosog gan ddefnyddio'r meysydd Malc perthnasol ar gyfer Ardaloedd Awdurdod Lleol.

30. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro unwaith eto'n diffinio'r ffactorau canlynol:

a) Twf – Mesur ar gyfer asesu'r twf sy'n digwydd yn Ninas Caerdydd yn ei brofi ar hyn o bryd;
b) Symudedd – Mesur sy'n sicrhau symudedd dysgwyr o bob rhanbarth sy'n cael eu denu gan ehangder ac ansawdd y cwricwlwm;
c) Trothwy – "Trothwy" i'w ddefnyddio'n genedlaethol.

31. Roedd Addysg Oedolion Cymru yn cynnig y gellid mesur cyfanswm nifer yr oriau o astudio a wneir.

Cwestiwn 8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y fethodoleg arfaethedig?

32. Gofynnodd pedwar ymatebydd (Coleg Cambria, Coleg Merthyr Tudful, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot a Choleg Sir Benfro) sut byddai'r fformiwla methodoleg arfaethedig yn cael ei ddiweddaru yn y dyfodol. Yn benodol, nodwyd y byddai angen ail-gyfrifo’r dyraniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn deg ac yn dryloyw. Awgrymodd Coleg Cambria y gellid gwneud hyn ar sail dreigl tair blynedd, er mwyn dileu'r risg o amrywiadau mawr. Gofynnodd Coleg Gwent a fyddai arian yn cael ei ddyrannu ar sail nifer y dysgwyr mewn SAB yn ystod y flwyddyn flaenorol.

33. Dywedodd Coleg Gwent a Choleg y Cymoedd eu bod yn cymeradwyo'r newid graddol arfaethedig yn y dyraniad dros gyfnod o dair blynedd, gan eu bod yn dweud y gallai newid i fethodoleg newydd dros nos achosi problemau i rai SAB. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro o'r farn bod y dyraniad graddol dros dair blynedd yn amhriodol, oherwydd yr oedi cyn dyrannu cyllid ychwanegol.

34. Tynnodd Colegau Cymru a Choleg y Cymoedd sylw at bryderon ynghylch y ffaith bod cyllideb gyffredinol y Gronfa wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd diwethaf.

35. Mae Addysg Oedolion Cymru yn credu y bydd y fformiwla'n cael effaith negyddol ar eu dysgwyr, yn enwedig y rhai anoddaf eu cyrraedd. Roeddent o'r farn y gallai'r cynnig godi materion cydraddoldeb posibl, gan y gallai effeithio ar ddysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd angen cyfleoedd dysgu rhan-amser oherwydd ymrwymiadau gofal plant a gofalu a'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu cymhleth ac anableddau meddyliol/corfforol.

36. Roedd NEU Cymru o'r farn nad oedd y fethodoleg arfaethedig yn glir ar y cyfan.

Cwestiwn 9. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r mater dan sylw yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

37. Ni wnaeth unrhyw ymatebwr nodi unrhyw gyfleoedd neu faterion posibl mewn perthynas â thriniaeth y Gymraeg, os yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu.

Cwestiwn 10. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

38. Ni nododd unrhyw ymatebwr unrhyw effeithiau positif penodol ar y Gymraeg, os caiff y polisi hwn ei weithredu.

39. Roedd Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot o'r farn, o ran y fethodoleg ddyrannu arfaethedig ar gyfer y Gronfa, y gallai fod effaith negyddol os yw dyraniad coleg o'r Gronfa yn lleihau ac y gallai rhai myfyrwyr cymwys fod ar eu colled, neu y bydd mathau o gymorth yn gorfod cael eu lleihau.

Cwestiwn 11. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

40. Ni nododd unrhyw ymatebwr ffordd benodol y gellid llunio neu addasu'r newid arfaethedig er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o effeithiau positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Awgryma Coleg Caerdydd a'r Fro y gallai fod cyfle i fynd i'r afael â hyn drwy gyllid craidd, ond nid cyllideb y Gronfa.

Cwestiwn 12. Cyfle i dynnu sylw at unrhyw bwyntiau ychwanegol.

41. Cafwyd chwe ymateb i'r cwestiwn hwn.

42. Amlinellodd Coleg Gŵyr eu teimladau, er bod y Gronfa yn gronfa yn ôl disgresiwn, nad yw'n dod yn agos at ddiwallu anghenion llawn, sy'n cynyddu drwy'r amser, eu cohort myfyrwyr. Er mwyn rheoli eu cyllid, mae'n rhaid i'r Coleg yn gyffredinol gyfyngu ar rai dyraniadau i ganran o'r cyllid y gofynnir amdano.

43. Gwnaeth Coleg y Cymoedd y sylwadau canlynol:

a) Mae cyllidebau disymud y Gronfa a thoriadau diweddar yn y gyllideb, ynghyd â chwyddiant, wedi golygu bod y Gronfa wedi cefnogi llai o fyfyrwyr;

b) Mae newidiadau dan law'r Llywodraeth i'r cwricwlwm mewn perthynas â mwy o gyfleoedd Lleoliadau Gwaith wedi cynyddu'r costau cysylltiedig i ddysgwyr;
c) Mae twf wedi'i weld mewn problemau iechyd meddwl ar draws y sector ac mae'n hysbys bod straen ariannol yn cyfrannu at hyn, wrth i deuluoedd gael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd. Mae maint y gyllideb ariannol yn un o'r prif ffyrdd y gall SAB helpu dysgwyr i oresgyn rhai ffactorau sy'n achosi straen;
d) Mae faint o gymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr, ar ffurf LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, wedi aros yr un fath. Yn y cyfnod hwnnw, mae gwerth gwirioneddol taliadau wedi'i erydu'n sylweddol wrth i gostau godi. Dylid rhoi ystyriaeth i faint dyraniad y Gronfa'n gyffredinol, y swm a dalwyd ar gyfer yr LCA a'r swm a dalwyd ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

44. Amlinellodd Coleg Merthyr Tudful eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol mewn problemau iechyd meddwl yn y portffolio myfyrwyr, dros y blynyddoedd diwethaf, a bod straen ariannol yn ffactor allweddol. Roeddent yn cwestiynu a fydd yr anghenion cynyddol yn cael eu diwallu os bydd cyllideb y Gronfa yn aros yr un fath neu'n lleihau. Nodwyd hefyd fod cymorth ariannol o'r LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru wedi aros yr un fath, gan arwain at leihad yn y gwerth gwirioneddol, gan effeithio ar galedi ariannol.

45. Gwnaeth Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot y sylwadau canlynol:

a) Mae dyraniad y Gronfa o wariant ar gludiant myfyrwyr yn amrywio o sefydliad i sefydliad ac mae angen edrych yn fwy manwl ar y ffactorau sy'n cyfrannu. Yn hyn o beth, mae gwerthusiad Old Bell o'r Gronfa eisoes wedi nodi'r canlynol:

i. Mae angen mynd i'r afael â rhai o'r gwahaniaethau ehangach a sylfaenol ar draws polisïau awdurdodau lleol ar ddarparu trafnidiaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, gan fod y rhain yn cael effaith sylweddol ar y defnydd o'r Gronfa ar gyfer costau cludiant ar draws AB;
ii. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau yn y dyfodol ar adnoddau'r Gronfa os bydd Awdurdodau Lleol yn gweithredu unrhyw doriadau i gyllidebau cludiant myfyrwyr anabl o ganlyniad i bwysau ar gyllid llywodraeth leol.

Mae gwerthusiad Old Bell o'r Gronfa yn mynd ymlaen i argymell:

iii. Yn yr hirdymor, mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'i phartneriaid, yn archwilio dulliau eraill o ariannu darpariaethau teithio ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed lle mae'n cael ei thalu amdani drwy'r Gronfa ar hyn o bryd.

b) Mae'r Grŵp wedi cael ei hysbysu'n ddiweddar gan ei bartner trafnidiaeth ar gyfer Colegau'r De y bydd yn codi cost yr ystod lawn o opsiynau tocyn bws 5% ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2019. O ran darparu cymorth parhaus ar gyfer cludiant o'r cartref i'r coleg i'r rhai â'r angen mwyaf, mae'r elfen gost a briodolir i drafnidiaeth eisoes yn gweld cynnydd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

c) Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg – ystyriaeth arall hefyd yw effaith y Ddeddf hon, sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Gallai'r newidiadau a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth newydd a gweithredu'r Cod newydd gynyddu costau trafnidiaeth gan y bydd gofyn i golegau roi mwy o gymorth a mynediad i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth ac anableddau.

46. Gwnaeth Colegau Cymru y sylwadau canlynol:

a) Anghenion dysgwyr a'r arian sydd ei angen i gynorthwyo pob dysgwr i barhau â'i astudiaethau ddylai fod yn fan cychwyn ar gyfer y gyllideb. Dull cyfiawnder cymdeithasol o asesu a darparu'r hyn sy'n angenrheidiol, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddyraniadau cyllideb hanesyddol. Buddsoddi mewn dysgwyr (sy'n agored i niwed yn aml), yn hytrach na chyllid;
b) Rhaid i ddyraniadau gyd-fynd â'r flwyddyn academaidd, yn hytrach na'r flwyddyn ariannol;
c) Pryderon bod cyllideb y Gronfa wedi cael ei thorri ddwy flynedd yn ôl a'i bod wedi aros yr un fath ers hynny, tra bo costau wedi codi;
d) Mae newidiadau i'r cwricwlwm, drwy'r Rhaglen Meysydd Dysgu, wedi cyflwyno mwy o bwyslais ar leoliadau gwaith, sydd wedi arwain at gostau teithio uwch;
e) Mae risg y bydd dysgwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant yn tynnu'n ôl o addysg, ar sail caledi ariannol, os caiff dyraniadau'r Gronfa hon i SAB eu torri;
f) Cynnydd mewn problemau Iechyd Meddwl ym mhob rhan o'r sector addysg, a'i bod yn hysbys bod straen ariannol yn cyfrannu at hyn;
g) Mae'r cymorth LCA a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru sydd ar gael i ddysgwyr wedi aros yr un fath, mae gwerth gwirioneddol y taliadau hynny wedi'i erydu'n sylweddol wrth i gostau godi;
h) Rhaid gwrthbwyso buddsoddi mewn addysg, drwy sicrhau bod dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â chwblhau eu hastudiaethau yn gallu parhau, yn erbyn y gost y bydd dysgwyr yn dod yn NEET, neu ar y gorau, yn gweithio mewn swyddi cyflog isel;
i) Dylid ailystyried y Gronfa, gyda thrafodaeth go iawn am Lywodraeth Cymru yn cyflwyno rhwymedigaeth statudol arni hi ei hun i ddarparu cronfa galedi.

47. Ailadroddodd Coleg Sir Benfro mai natur wledig/teneurwydd y boblogaeth ac ail-gyfrifo bob blwyddyn yw'r ddau fater sylfaenol yr hoffent eu gweld yn cael sylw.

48. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er eu bod yn cael swm cymharol fach, mae'n adnodd hynod werthfawr i'w dysgwyr. Roeddent yn croesawu'r cynnig i gael eu heithrio o weithredu'r fformiwla nes bod dealltwriaeth well o anghenion a gofynion eu dysgwyr, gan fod y trefniant yn gymharol newydd. Nodwyd bod y strwythur a'r dysgwyr yn wahanol iawn i'r sefydliadau eraill. Ni fyddai'r fethodoleg newydd yn ystyried trawstoriad y

dysgwyr, gan mai ychydig o ddysgwyr amser llawn sy'n bodoli yn y maes ac nid yw'r LCA/Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn berthnasol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

49. Ystyriodd a dadansoddodd Llywodraeth Cymru sylwadau a safbwyntiau'r holl ymatebwyr. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

50. Trafodwyd y ffactorau ychwanegol y cynigiwyd eu cynnwys yn y fethodoleg ddyrannu wrth ddatblygu'r dull gweithredu arfaethedig, ond ystyriwyd eu bod yn berthnasol i rai sefydliadau, ond nid i eraill. Byddai cynnwys ffactorau o'r fath yn peryglu tegwch a thryloywder y fethodoleg. Adlewyrchir hyn yn yr ymatebion gwrthgyferbyniol i'r cwestiynau ymgynghori perthnasol.

51. Dewiswyd y mesur o anfantais economaidd oherwydd ei fod yn benodol i amgylchiadau dysgwyr unigol, yn hytrach na'r ardal lle mae'n byw neu ble mae'r sefydliad wedi'i leoli. Ystyriwyd mesur ar sail ardal wrth ddatblygu'r dull gweithredu arfaethedig, ond ystyriwyd ei fod yn fwy o ddirprwy na mesur wedi'i dargedu o anfantais economaidd y boblogaeth ddysgwyr.

52. Mae'r rhaniad yn y gyllideb a ddyrennir ar gyfer dysgwyr amser llawn a rhan-amser yn seiliedig ar y ffordd y mae sefydliadau wedi gwario eu cyllidebau yn y gorffennol. Bydd y rhaniad hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o ddiweddaru'r fformiwla, gan ystyried y ffurflenni casglu data diweddaraf gan sefydliadau.

53. Caiff y dyraniadau eu hailgyfrifo bob blwyddyn, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn deg ac yn dryloyw. Bwriad cyflwyno'r dull hwn yn raddol dros dair blynedd academaidd yw helpu sefydliadau i reoli effaith gychwynnol y newidiadau mewn dyraniadau. Gan gyfeirio at ddyraniad statig cyfredol 2018/19, bydd sefydliadau'n gweld traean o'r newid yn deillio o'r dyraniad diweddaraf wedi'i gyfrifo yn 2019/20, dwy ran o dair yn 2020/21 a dyraniad wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y fethodoleg newydd yn 2021/22.

## Atodiad A

## Rhestr o'r Ymatebwyr

NEU Cymru - Undeb Addysg Genedlaethol
Coleg Gŵyr Abertawe
Addysg Oedolion Cymru
Y Coleg Merthyr Tudful
Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
Colegau Cymru
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Coleg Gwent
Coleg Cambria
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg y Cymoedd
Coleg Sir Benfro
Coleg Pen-y-bont